# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD GWENER, 7 MAWRTH 2025 14:00

## Presennol

Y Cynghorydd John Spanswick – Cadeirydd

## Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | P Davies | H Griffiths |
| S J Griffiths | G John | JC Spanswick | C Stallard |
| B Stephens | Turner | | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Z Shell

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Chris Morris | Cyfrifydd |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

## Datganiadau o Fuddiannau

Dim

## 57. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | **PENDERFYNWYD:**<br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo, dyddiedig 13 Medi 2024, fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/03/2025 |

## 58. Cynllun Busnes a Ffioedd yr Amlosgfa

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth yr adroddiad, a'i bwrpas oedd cael cymeradwyo Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth a Ffioedd yr Amlosgfa ar gyfer 2025-26. Ychwanegodd hi y byddai'n well gan y pwyllgor efallai ohirio cymeradwyo pwynt 9.2 nes i adroddiad y Trysorydd, sef yr eitem nesaf i'w thrafod, gael ei gyflwyno.<br><br>Cyfeiriodd aelod at dudalen 22 o'r adroddiad a'r ystadegau a grybwyllir ynddi, yn benodol, cyfanswm yr amlosgiadau ar gyfer y flwyddyn 2025 hon o'i gymharu â 2024. Nododd fod cynnydd o bron i 23% yn enwedig yn ystod misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Gofynnodd a oedd hyn oherwydd bod cyfradd y marwolaethau yn y fwrdeistref yn cynyddu ynteu a ydoedd oherwydd bod mwy o bobl yn dewis dod i Amlosgfa Llangrallo. Atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y gallai fod nifer o ffactorau megis y tywydd a'i effaith ar iechyd pobl, gan fod poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch yn awr nag yr oedd o'r blaen. Dywedodd fod trefnwyr angladdau wedi rhoi adborth i'w thîm hi fod tuedd, gyda ffiniau'r Sir â RCT, i deuluoedd ddewis amlosgfa Llangrallo fel y cyfleuster sy'n agos at lle maent yn byw.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cymhariaeth wedi cael ei wneud ag amlosgfeydd eraill, fel Margam er enghraifft. Atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth nad oedd cymhariaeth o'r fath wedi cael ei chynnal. Fodd bynnag, teimlai fod y gwasanaeth yn cael gaeafau prysurach a hafau tawelach.<br><br>Gofynnodd aelod a oedd ystadegau ar gael ar Amlosgiadau Uniongyrchol ac atebodd Rheolwr a |

| | |
|---|---|
| | Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod yr ystadegau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Amcangyfrifai hefyd fod 1-2 amlosgiad uniongyrchol yn cael ei gynnal yr wythnos.<br><br>Roedd yr aelod yn canmol cyfleusterau'r cwrt Blodau a'r pwrpas yr oedd yn ei gyflawni yn ystod y gwasanaeth Nadolig.<br><br>Bu trafodaeth hefyd ynghylch cynnydd mewn prisiau yng ngwasanaethau Bro Morganwg, pan atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth nad oedd ganddi fynediad at y cynnydd mewn prisiau ond ei bod yn ymwybodol bod costau'n cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn.<br><br>Fe wnaeth aelod ganmol Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth am berfformiad yr adran gyfan dros y blynyddoedd a chytunodd i gefnogi'r cynnydd yn y gyllideb a grybwyllwyd er mwyn ei gwneud yn bosibl cynnal y safonau uchel yn y gwasanaeth..<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>• Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth 2025-26 (Atodiad 1).<br>• Bod y Cydbwyllgor yn cytuno ymhellach ar gynnydd o 2.6% yn yr holl ffioedd ar gyfer 2025-26 |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/03/2025 |

## 59. Perfformiad Ariannol 2024-25 a'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Cyfrifydd yr adroddiad a'i ddiben oedd hysbysu'r Cyd-bwyllgor am y perfformiad ariannol a ragwelid ar gyfer yr Amlosgfa ar gyfer 2024-25, a chael cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gyllideb Arfaethedig a'r Ffioedd a'r Taliadau ar gyfer 2025-26.<br><br>Gofynnodd aelod beth oedd cost ragweladwy'r adnewyddiad mawr y soniwyd amdano mewn perthynas â'r offer a'r peiriannau a gofynnodd hefyd a oedd y Cyngor ar y trywydd iawn gyda'r rhagamcanion.<br><br>Atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth pan gafodd yr amlosgyddion eu newid y tro diwethaf, fod gwaith adeiladu helaeth hefyd wedi cael ei wneud. Estynnwyd adeilad yr Amlosgfa ac |

| | |
|---|---|
| | felly, roedd costau ychwanegol ar gyfer y gwaith adeiladu. Roedd yr adeilad bellach yn addas i'r diben i newid yr amlosgyddion. Dywedodd nad oedd hi'n rhagweld y byddai angen unrhyw waith adeiladu pellach.<br><br>Tynnodd sylw'r aelodau at do symudadwy yr estyniad newydd oedd yn ei gwneud yn bosibl symud offer i mewn ac allan o'r cyfleuster. Dywedodd y byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw amser segur yn cael ei achosi tra byddai'r offer yn cael ei newid. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod yr offer ar y pryd wedi costio llai na miliwn i'r Awdurdod.<br><br>Yn ystod y gwaith gosod yn 2016, cymerodd y gwasanaeth gontract gwasanaeth a chynnal a chadw cynhwysfawr am gyfnod o 15 mlynedd. Dyna oedd cyfnod oes ddisgwyliedig yr amlosgydd. Dywedodd mai dyma pam yr oedd hi'n rhagweld y byddai angen gwaith adnewyddu ymhen chwe blynedd. Dywedodd y gallai'r offer bara'n hirach, neu y gallai Deddf Diogelu'r Amgylchedd newid yn ystod y cyfnod hwnnw, ac efallai y byddai'n ofynnol i'r gwasanaeth weithredu'n gynt.<br><br>Roedd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth yn rhagweld cost o filiwn o bunnau ar gyfer newid offer. Ychwanegodd ei bod hi'n rhy gynnar eto i wneud ymholiadau oherwydd bod technoleg yn hyn o beth yn symud ymlaen mor gyflym.<br><br>Soniodd y byddai'n well aros ychydig flynyddoedd cyn i'r awdurdod ddechrau ystyried sut i symud ymlaen, gan na fyddai'n rhaid efallai i'r gwasanaeth edrych ar amlosgyddion yn unig erbyn hynny, efallai y byddent yn edrych ar amlosgyddion trydan bryd hynny. Ychwanegodd y gallai'r gwasanaeth hefyd fod yn edrych ar fath arall o waredu yn ogystal ag amlosgyddion. Dywedodd fod digon o arian yn y cronfeydd dros ben i dalu am waith ychwanegol fyddai'n ofynnol o fewn y cyfnod hwnnw (e.e. wyneb ffordd wedi torri yn y maes parcio). Dywedodd fod gwaith helaeth hefyd i'w wneud wrth lyn y gwasanaeth, ac ymhellach, disgwylid i estyniad tir newydd ddechrau ymhen ychydig o flynyddoedd.<br><br>Sicrhaodd yr aelodau, er ei fod yn swnio fel gwariant uchel o arian, fod yr arian oedd yn y gronfa dros ben.ar y pryd yn ddigon i wneud i fyny am hyn.<br><br>Gofynnodd aelod a oedd cymhariaeth wedi cael ei wneud o ran ffioedd, p'un a oedd Pen-y-bont ar Ogwr yn is ynteu ar lefel gytbwys â chyfleusterau eraill.<br><br>Atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod gwahanol grwpiau o ffioedd yn ymwneud â llyfrau coffa, gwybodaeth am y cyfryngau a ddarperir yn y capeli, teyrngedau gweladwy a |

<table>
<tr><td></td><td>darllediadau gwe. Dywedodd ei bod yn diweddaru ei gwybodaeth ei hun yn rheolaidd ynghylch y ffioedd a'r taliadau mewn amlosgfeydd cyfagos, gan sicrhau felly fod Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn gyson â'u taliadau hwy. Dywedodd fod hyn hefyd o gymorth i sicrhau nad yw Pen-y-bont ar Ogwr yn codi rhy ychydig o dâl. Sicrhaodd yr aelodau fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud i sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn aros yn debyg i eraill yn y bwrdeistrefi cyfagos.<br><br>Holwyd ynghylch effeithiau costau Amlosgyddion yn unol â thargedau Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2030. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd nad oedd hi wedi ymchwilio i hyn yn benodol ond ei bod yn cael ei harwain gan Ffederasiwn Awdurdodau Amlosgi Prydain sy'n ymgymryd â gwaith gyda Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd sy'n astudio'r defnydd o ynni a'r goblygiadau amgylcheddol. Dywedodd fod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn anelu at fod mor gyfeillgar i'r amgylchedd â phosibl yn eu gweithrediad.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd beth fyddai'n digwydd pe bai prinder yn y cyflenwad nwy. Atebodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod oergelloedd enfawr ar y safle a hefyd ail ffynhonnell nwy, a bod hyn yn galluogi'r gwasanaeth i storio cyrff yn hylan am ddau ddiwrnod. Darparwyd lwfans statudol cyfreithiol i'r gwasanaeth mewn sefyllfaoedd brys pan ganiateid iddynt storio am dri diwrnod. Ychwanegodd fod y gwasanaeth wedi'i awdurdodi i storio am gyfnod ychydig yn hirach mewn argyfwng. Pe bai toriad i'r cyflenwad nwy, nid oedd hi'n rhagweld y byddai'n para mwy na diwrnod neu ddau oherwydd bod yr Amlosgfa yn wasanaeth blaenoriaeth ac yn derbyn ymateb sydyn iawn i unrhyw broblemau y gallent eu hwynebu yn hynny o beth.<br><br>Gofynnodd aelod am adroddiad byr i'r pwyllgor am gymhariaeth a gynhaliwyd ar gyfleusterau tebyg yn y bwrdeistrefi cyfagos.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cydbwyllgor:-<br><br>(a) Yn nodi'r perfformiad ariannol disgwyliedig ar gyfer 2024-25.<br>(a) Yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025-26.<br>(b) Yn cymeradwyo cynnydd o 2.6% yn y ffioedd a'r taliadau i ddod i rym o 1 Ebrill 2025 fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>07/03/2025</td></tr>
</table>

## 60. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/03/2025 |

I weld rhagor o’r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen yma

Daeth y cyfarfod i ben am 10:50.